# Adroddiad Arolygu

**Cylch Meithrin Y Parc**

**Cardiff Volleyball**
**Parc Fictoria**
**Treganna**
**Caerdydd**
**CF5 1EY**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

12/07/2021

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2021.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Cylch Meithrin Y Parc

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Sesiynol |
| Darparwr Cofrestredig | Pwyllgor Rheoli Cylch Meithrin y Parc |
| Lleoedd cofrestredig | 19 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | Hwn oedd yr arolygiad cyntaf |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Ydy. Mae'r gwasanaeth yn darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb

Cynhaliwyd yr arolygiad hwn yn ystod pandemig COVID-19. Felly, rydym wedi canolbwyntio ar y meysydd â blaenoriaeth ar gyfer y lleoliad hwn, ac nid y fframwaith ansawdd cyfan.

Mae'r plant yn hapus, wedi setlo ac wedi meithrin cydberthnasau cynnes a chadarnhaol â'r staff. Maent yn mwynhau'r amrywiaeth o gyfleoedd chwarae sydd ar gael iddynt ac yn ymddiddori yn eu chwarae mewn modd brwdfrydig.

Mae gan y staff ddealltwriaeth dda o'u rolau a'u cyfrifoldebau mewn perthynas ag iechyd a diogelwch y plant, gan sicrhau bod lles y plant yn hollbwysig. Maent yn cefnogi ymddygiad cymdeithasol y plant yn effeithiol, ac yn rhyngweithio â'r plant mewn modd cadarnhaol.

Mae'r amgylchedd yn addas ac yn ddiogel i'r plant. Mae digon o le ar gael dan do ac yn yr awyr agored i'r plant allu chwarae'n gyfforddus ac archwilio'n rhydd. Caiff gwiriadau iechyd a diogelwch eu trefnu'n effeithiol, ac mae asesiadau risg clir ar waith. Mae trefniadau arwain y gwasanaeth yn effeithiol. Mae systemau cadw cofnodion cyson ar waith er mwyn helpu'r gwasanaeth i redeg yn ddidrafferth yn ogystal â system ar gyfer adolygu polisïau a gweithdrefnau'n rheolaidd.

## Llesiant

Mae'r plant yn gwneud penderfyniadau ac mae'r staff yn gwrando arnynt. Gallant ddewis eu gweithgareddau'n rhydd, ac maent yn gwybod y byddant yn cael help neu gymorth os byddant yn gofyn amdano. Maent yn gyfarwydd â'r drefn ddyddiol ac yn gwybod beth i'w ddisgwyl. Mae ganddynt ymdeimlad o berthyn yn y lleoliad, ac mae hyn yn gwneud iddynt deimlo'n ddiogel. Mae'r plant yn teimlo'n hyderus i leisio eu dewisiadau ac yn datblygu hunan-barch da. Er enghraifft, gwelsom y plant yn mynegi boddhad â'r amrywiaeth eang o adnoddau chwarae a dysgu awyr agored a oedd ar gael iddynt.

Mae'r plant yn hapus, yn ddiogel ac yn cael eu gwerthfawrogi. Maent yn dechrau gwneud ffrindiau yn unol â'u hoedran a'u cam datblygu. Mae'r plant yn rhannu ac yn cymryd eu tro wrth chwarae gemau. Er enghraifft, gwelsom fod y plant yn barod i helpu, gan estyn peli i'w gilydd a chan weithio fel grŵp wrth yr hambwrdd dŵr. Caiff y plant ymarfer corff ac awyr iach yn rheolaidd, ac maent yn gwerthfawrogi'r amser y maent yn ei dreulio yn yr awyr agored yn cymryd rhan mewn chwarae egnïol.

Mae'r plant yn meithrin eu sgiliau cyffredinol a chânt gyfleoedd i wneud pethau drostynt eu hunain. Maent yn fodlon chwarae yn annibynnol ac yn mwynhau rhoi cynnig ar bethau newydd. Maent yn hoffi cael cyfleoedd ar gyfer gweithgareddau corfforol i hybu eu sgiliau, ac yn mwynhau dewis teganau ac adnoddau heb help gan y staff. Maent yn fodlon bwrw ati er mwyn cyflawni tasgau.

## Gofal a Datblygiad

Mae'r staff yn cydweithio'n dda i ddiwallu anghenion y plant yn llwyddiannus. Maent yn rhoi polisïau a gweithdrefnau effeithiol ar waith, ac maent wedi adolygu'r gwasanaeth a'r gofal yn unol â'r canllawiau sy'n gysylltiedig â phandemig COVID-19. Maent yn deall sut i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach.

Mae'r staff yn rhyngweithio'n gadarnhaol â'r plant yn gyson. Maent yn cefnogi'r plant i reoli eu hymddygiad a hybu eu hunan-barch. Mae polisi rheoli ymddygiad y gwasanaeth yn nodi strategaethau sy'n briodol ar gyfer oedran y plant i ddelio ag ymddygiad digroeso, ac mae'r staff yn deall y strategaethau hyn ac yn eu rhoi ar waith pan fydd angen. Mae'r staff yn dangos esiampl dda ac yn dangos parch tuag at ei gilydd yn ogystal â'r plant yn eu gofal. Drwy hyn, crëir awyrgylch hamddenol a magwrus, ac mae'r plant yn ymateb i hyn yn dda. Mae'r staff yn cydnabod cyflawniadau'r plant yn aml ac yn eu canmol yn ddigymell, gan feithrin eu hyder a'u hunan-barch o ganlyniad i hyn. Er enghraifft, roeddent yn canmol y plant am dacluso teganau a rhannu brwshys.

Mae'r staff yn hybu ac yn annog chwarae a dysgu'r plant mewn modd bwriadus, ac mae arferion cyson ar waith ar gyfer cefnogi datblygiad ac anghenion unigol y plant. Mae cymysgedd da o weithgareddau a arweinir gan y plant a rhai a arweinir gan oedolion drwy gydol y sesiwn, gyda'r pwyslais ar chwarae a arweinir gan y plant. Mae hyn yn golygu bod modd i'r plant ddilyn eu diddordebau ac archwilio eu hamgylchedd yn annibynnol, gyda'r staff ar gael yn hawdd i'w helpu os bydd angen.

## Yr Amgylchedd

Mae'r amgylchedd yn ddiogel, yn lân ac mewn cyflwr da, sy'n darparu lle diogel a chyfforddus i'r plant ymlacio a dysgu. Mae'r staff yn cynnal asesiadau risg gweledol o'r gwasanaeth bob dydd, wedi'u hategu gan asesiadau risg ysgrifenedig. Mae'r ardal awyr agored yn amgaeedig a chaiff y giatiau eu cadw dan glo pan fydd y gwasanaeth ar agor, ond nid oes gweithdrefn ar waith ar gyfer symud pawb o'r ardal awyr agored i'r adeilad. Mae'r staff yn deall eu rôl mewn perthynas ag iechyd a diogelwch, ac mae mwy o waith glanhau yn mynd rhagddo yn unol â'r canllawiau presennol sy'n gysylltiedig â'r pandemig.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn darparu digon o le i'r plant a chyfleusterau addas gan gynnwys toiledau a lle i storio eu heiddo. Mae'r brif ystafell chwarae wedi'i threfnu'n gymharol dda ond nid oes llawer o ardaloedd dysgu er mwyn hybu datblygiad a dysgu'r plant. Mae'r ardal awyr agored yn darparu lle hyfryd i'r plant gael chwarae, gydag amrywiaeth dda o adnoddau a chyfarpar o ansawdd da. Gall y plant symud yn rhydd rhwng yr ardal dan do a'r ardal awyr agored.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn darparu adnoddau o ansawdd da sy'n briodol ar gyfer oedran a chamau datblygu'r plant. Mae digon o'r rheini ar gael ar gyfer nifer y plant sy'n dod i'r gwasanaeth.

## Arwain a Rheoli

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn wybodus am arferion gofal plant presennol, a nodir hyn yn y datganiad o ddiben sy'n hawdd ei ddarllen ac yn gynhwysfawr.  Yn ystod yr arsylwadau a wnaed fel rhan o'r arolygiad, gwelwyd tystiolaeth fod y bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn diwallu anghenion y plant a'u rhieni. Maent yn diweddaru'r polisïau a'r gweithdrefnau, ac yn eu rhannu â phob aelod o'r staff. Mae hyn yn sicrhau bod y staff yn gyfarwydd â'r holl brosesau i'w dilyn.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn cefnogi'r staff yn effeithiol. Yn ogystal â hyfforddiant craidd, cânt gyfleoedd i feithrin eu sgiliau a gwella eu gwybodaeth drwy gwblhau amrywiaeth o gyrsiau. Mae'r gwiriadau Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn gyfredol.  Mae system ar waith ar gyfer rheoli absenoldebau staff mewn argyfwng fel na fydd unrhyw absenoldeb yn effeithio ar ansawdd y gofal a roddir.

Mae'r cydberthnasau â'r rhieni yn gadarnhaol ac yn cyfrannu at lesiant y plant. Gall y rhieni siarad â'r staff am ofal eu plentyn pan fyddant yn dod â'u plant neu'n eu casglu. Mae'r arferion hyn yn galluogi'r rhieni/gwarcheidwaid i barhau i fod yn rhan o ofal eu plant. Mae'r gwasanaeth mewn cysylltiad ag Athro Ymgynghorol yr awdurdod lleol yn rheolaidd ac yn cynnal cysylltiadau ag asiantaethau allanol perthnasol, gan rannu gwybodaeth pan fydd angen er mwyn gwneud yn siŵr bod plant unigol yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt.

## Argymhellion i gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol

A1. Datblygu'r ardal dan do i roi mwy o gyfleoedd chwarae a dysgu i'r plant

A2. Llunio cynllun i symud pawb o'r ardal awyr agored i'r adeilad i sicrhau bod y plant a'r staff yn gyfarwydd ag ef.

| Y meysydd i'w gwella a'r camau a nodwyd yn yr arolygiad blaenorol neu ers hynny. Wedi'i gyflawni |
| --- |

| Y meysydd i'w gwella a'r camau a nodwyd yn yr arolygiad blaenorol neu ers hynny. Heb ei gyflawni | |
| --- | --- |
| Dim | |

| Meysydd lle y mae angen gweithredu â blaenoriaeth | |
| --- | --- |
| Dim | |

| Meysydd lle y mae angen gwneud gwelliannau | |
| --- | --- |
| Dim | |

**Dyddiad Cyhoeddi** 15/10/2021